

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Symud ymlaen o'ch Canolfan Groeso, eich gwesty neu eich parc gwyliau

## Canllaw i Wcreiniaid

**Cewch gymorth i symud i gartref mwy hirdymor gan y bydd pob llety cychwynnol yn cael ei gau eleni.**

**Rhaid ichi weithio gyda'ch awdurdod lleol i'w helpu i ddod o hyd i'r cartref gorau sydd ar gael ichi i'w rentu, neu gartref gyda lletywr.**

**Cofiwch:**

- **Ni allwch** aros yn eich Canolfan Groeso, eich gwesty na'ch parc gwyliau.
- Bydd eich cartref newydd yn cyflawni eich anghenion llety. Efallai y bydd mewn ardal wahanol, ond bydd pob gwasanaeth ar gael ichi.
- Mae'r galw am lety yn uchel iawn. Dylech dderbyn eich cynnig cyntaf os gallwch. Os gwrthodwch fwy nag un cynnig, bydd rhaid ichi dalu ffi er mwyn i'r awdurdod lleol barhau i ymchwilio i fwy o opsiynau ar eich cyfer.
- Mae tai cymdeithasol yn annhebygol o fod yn opsiwn. Efallai na fyddwch yn gymwys ac mae'r rhestrau aros yn hir. Nid yw tai cymdeithasol am ddim.

Gallwch ddilyn cod QR i gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Noddwr Uwch Llywodraeth Cymru ac am ragor o gymorth a chyngor.

WG48806